

Pris: 50c

Papur Pawb

Ionawr 2020 Rhif 455



Nadolig y Teganau – tudalen 4-5

tud 6
Helo 'Na

tud 8
Dydd a Nos

tud 10
Gyrfa Chwist

tud 12
Chwaraeon

Ap byd-eang Gary

Dros y chwe blynedd ddiwethaf mae ein fferyllydd Gary Jones wedi datblygu ap (math o feddalwedd ar gyfer dyfeisiau symudol) sydd, ar hyn o bryd, yn ennill poblogrwydd ledled y byd.

Nid ap at ddefnydd y cwsmeriaid a chleifion ydy hwn ond yn hytrach at ddefnydd y fferyllydd wrth iddo olrhain, dosbarthu a chasglu ein rhagnodyn/sgrïpt. Hynny yw, mae'n gwneud yn siŵr ein bod yn derbyn ein moddion cywir o'r fferyllfa. Wedi i Gary brofi bod yr ap yn gweithio'n berffaith yma yn Nhal-y-bont penderfynodd ei gynnig i nifer o'i gydweithwyr ac i fferyllwyr eraill hwnt ac yma yr oedd yn eu hadnabod. Roeddynt i gyd o'r un farn, roedd yr ap o fantais fawr iddynt.

Y cam nesaf oedd ffurfio cwmni, Pro Delivery Manager Ltd. er mwyn hyrwyddo'r ap. Daeth cymdeithas genedlaethol Fferyllwyr Prydain i wybod amdano a'i gynnig i'r 14,000 o fferyllfeydd ym Mhrydain. Ar hyn o bryd mae tua 6,500 yn ei ddefnyddio gyda'r nifer yn cynyddu wrth i'r ymwybyddiaeth a'r enw da gynyddu. Mae'r gymdeithas genedlaethol hon yn un sy'n bodoli er mwyn bod o gymorth i fferyllwyr ac nid yw'n gwneud elw ond er hynny mae wedi dangos diddordeb mawr, digon i brynu 40% o gwmni Gary er mwyn hyrwyddo'r ap ledled Prydain a thu hwnt.

Aeth Gary gyda'i stondin i arddangosfa fferyllwyr yn yr NEC yn Birmingham a chael croeso mawr ac yn dilyn hynny ymlaen i gynhadledd fyd-eang yn Oman i ddarlithio, dangos ac egluro'r ap. Fel adnodd Saesneg mae gwledydd Saesneg eu hiaith fel Awstralia, yr UDA, Canada ac wrth gwrs Prydain yn gwneud defnydd o ddyfais Gary.

O ganlyniad i boblogrwydd yr ap mae wedi ennill nifer o wobrau megis 'Gwobr Fferyllwyr Cymru' mewn derbyniad yn The Vale, ger Caerdydd. Daeth yn gyntaf mewn cystadleuaeth i Fferyllwyr Annibynnol Prydain yn Llundain ac enillodd 'Gwobr Fusnes Fferyllwyr Prydain' lle bu Jeremy Hunt, Ysgrifennydd Iechyd Llywodraeth Prydain ar y pryd, yn annerch mewn digwyddiad 'tei-du', eto yn Llundain.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru wedi dangos diddordeb yn y datblygiadau diweddaraf sef Fersiwn 3 o'r ap. Yn bennaf er mwyn sicrhau bod y moddion cywir yn dod i'n dwylo ni naill ai yn y fferyllfa neu yn uniongychol i'r cartref, a hynny er mwyn ein diogelwch ac yn y pen draw i arbed arian i'r gwasanaeth iechyd.



Mae'n braf meddwl ein bod ni yma yn Nhal-y-bont wedi bod yn rhan o'r arbrawf arbennig yma ac wedi helpu i ddatblygu ap sydd, nid yn unig yn talu ar ei ganfed ond ar ei filiwnfed yn fyd-eang. Rhaid llongyfarch Gary, ein fferyllydd, ar ei fenter a dymuno'n dda iddo wrth iddo ddatblygu rhagor ar yr ap sydd o les i drigolion ein hardal ni ac i'r byd.

O weithio'n lleol mae Gary nawr yn gweithio'n rhyngwladol!

Rh H

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys: Lynwen Morgan 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais: Non Griffiths (01654) 781264
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Is-gadeirydd: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanygrifiadau: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

CYMRAG

Llythyr

Llwyn Afallon

Mae Rosina Jones, Llandudno, gynt o Lwyn Afallon, yn cofio at ei holl ffrindiau yn Aberystwyth, ac er nad anfonodd gardiau eleni mae hi'n gobeithio iddynt gael Nadolig da a dymuna Flwyddyn Newydd Dda iddynt.

NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT

Cyfarfod Blynyddol y Pwyllgor Rheoli

Nos Fercher 12 Chwefror
8.00 yr hwyr
Yn y Neuadd Isaf

Croeso Cynnes i aelodau
hen a newydd

Tylino Thai Trefechan

Trefechan Thai Massage

Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster

Am sesiwn, ffoniwch ni ar
07878 071367

LRJ

**Plymio
cyffredinol
a chynhaliaeth**

Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

EISTEDDFOD Ceredigion

Cinio Dydd Sul – dau gwr

Yn y Wildfowler, Tre'r Ddôl
Dydd Sul, Ionawr 26ain
@12 - 12.30
Dewch i fwynhau

Am fwy o fanylion cysylltwch
â Phil Davies 01970 832384
neu Bethan Davies
01970 832244

EISTEDDFOD 2020

Yn awyddus i ymuno â chôr yr Eisteddfod? Bydd yr ymarferion ar gyfer Côr Cymanfa Ganu'r Eisteddfod yn cychwyn am 7.30 nos Lun nesaf, 13 Ionawr, yn Ysgol Gyfun Aberaeron. Dyw hi ddim yn rhy hwyr chwaith i ymuno â'r côr a fydd yn perfformio Lloergan, a bydd croeso mawr i chi ddod i'r ymarfer nesaf yn Ysgol Gyfun Aberaeron, nos Lun 20 Ionawr am 7.30. Mae'r trefnwyr yn awyddus i recriwtio rhagor o ddynion i ymuno â'r côr er mwyn sicrhau cydbwysedd lleisiol, felly bydd croeso arbennig ar y noson i denoriaid a baswyr o bob than o'r dalgylch!

Dyddiadur

IONAWR

- 12 Bethel** 10 Gwilym Tudur
Rehoboth 2 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun
Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Cymun
Bendigaid
Gweithdy: Tylluanod Gwaith Ffelt 2–5 Cletwr
- 13 Cyfarfod: Cynllun Rhannu Ceir Cymunedol** 7–8.30 Cletwr
- 14 Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 'Blwch Atgofion' (Elisabeth Wyn)
Tenis Bwrdd 7 Yr Ystafell
Haeam, Eglwysfach
- 15 Cwrs: Photoshop Elements** 7–9 Cletwr
- 16 Blogwyr yn Cyfarfod** 9.30–11.30 Cletwr
Tai Chi 2 Yr Ystafell Haeam, Eglwysfach
Ioga ar eich eistedd 7–8.30 Cletwr
Bingo 7.30 Wildfowler
- 17 Noson Cyfnewid Dillad** 7–8.30 Cletwr
- 18 Cyngerdd Byw: 'Cynefin'** 7.30–9.30 Cletwr
- 19 Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Gweddi Hwyrrol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Gweddi Foreol
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwyrrol Weddi
- 20 Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 'Cyfieithu o ryw fath!' (Rhys Huws)
- 23 Tai Chi** 2 Yr Ystafell Haeam, Eglwysfach
- 24 Cwis** 8 Wildfowler
Sesiwn Nos Wener 'Traedmochmôn' 8 Y Llew Du
- 25 Noson Burns** 7 Yr Ystafell
Haeam, Eglwysfach
- 26 Bethel** 10 Geraint Evans
Nasareth 10 Oedfa'r Ofalaeth yn y Garn
Rehoboth 10 Oedfa'r Ofalaeth yn y Garn
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun
Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Cymun
Bendigaid
Gweithdy: Canu gyda Iona 4–6 Cletwr
- 26 Eisteddfod Ceredigion 2020,** Cinio Dydd Sul 12 - 12.30 yn y Wildfowler, Tre'r Ddol.

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

- 28 Cymdeithas Trefnadaeth Llangynfelyn** 'The Chartist Movement in Wales' (Dilys Williams) 7.30 Llanfach
Tenis Bwrdd 7 Yr Ystafell
Haeam, Eglwysfach
Gweithdy: Celfyddyd Kokedama 7–9 Cletwr
- 30 Tai Chi** 2 Yr Ystafell Haeam, Eglwysfach
Bingo 7.30 Wildfowler
- 31 Dathlu Cymunedau** 3–6.30 Cletwr

CHWEFROR

- 2 Bethel** 11.15 Uno yn Nasareth
Nasareth 11.15 Bugail
Rehoboth 11.15 Uno yn Nasareth
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid
- 6 Tai Chi** 2 Yr Ystafell Haeam, Eglwysfach
- 7 Cwis** 8 Wildfowler
- 9 Bethel** 10 Uno yn Seion, Aberystwyth
Rehoboth 11.15 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
- 11 Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 'Tai a phobl Elerch' (Richard Huws)
Tenis Bwrdd 7 Yr Ystafell
Haeam, Eglwysfach
- 12 Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli** 8 Neuadd Goffa
Tal-y-bont
- 13 Tai Chi** 2 Yr Ystafell Haeam, Eglwysfach
Bingo 7.30 Wildfowler
- 14 Sesiwn Nos Wener** Gwenan
Gibbard 8 Y Llew Gwyn

Cletwr

Bob dydd Mawrth 'Clonc a Gweu' 3–5
Bob dydd Sul 'Rhedeg Cymdeithasol' 9.30–10.30

Neuadd Pentref Capel Bangor

Gyrfa Chwist

Dydd Mercher
22/01/2020, @ 8p.m.
Croeso i Bawb



Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Mair a Beryl, gyda Ceri yn dylunio. Diolch iddynt. Y golygyddion ar gyfer y rhifyn nesaf fydd Cathryn (cat_yfoel@hotmail.com) a Llio (L.Rhys2@talybont.ceredigion.sch.uk). Y dyddiad cau yw 7 Chwefror a bydd y papur ar werth ar 14 Chwefror.



Pobl a Phethe

Canu Calennig

Dechrau gwych i'r flwyddyn newydd oedd cael cyfarchiad fore dydd Calan gan Mari, Elsi a Ieuan yn canu am galennig.

Eglwys St. Pedr, Bont-goch

Cynhaliwyd ein gwasanaeth blynyddol o garolau a llithoedd ar Ddydd Sul 12 Rhagfyr o dan arweiniad Y Parchg Ganon Andrew Loat, gyda 24 yn bresennol. Darllenwyd y llithoedd gan Emyr, Lisa, Betsan, Dewi, Simon a Richard. Cyflwynwyd y casgliad o £200 i Uned Chemotherapi Ysbyty Gyffredinol Bronglais.

Daeth 19 i wasanaeth y Cymun Bendigaidd ar fore Nadolig am 8-00 y bore. Roedd y gwasanaeth hwn hefyd o dan ofal Y Parchg Ganon Andrew Loat. Darllenwyd y llithoedd gan Caoimhe ac Oisín.

Derbyn Triniaeth

Braf deall bod Jill Roberts, Felin Lifio, Tal-y-bont wedi gwella'n dda yn dilyn ei thriniaeth ar ei llygad. Gwylia di John, bydd yn gweld popeth o hyn ymlaen!

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Adrian a Caron Hughes, 92 Maes-y-deri, Tal-y-bont ar enedigaeth wyres, Bela Wyn merch i Dylan a Sara Hughes ym Mhenrhyncoch, a chwaer fach i Ania.

Eglwysfach

Dim yn amal gwelir ein heglwysi yn llawn y dyddiau yma, ond 'roedd Eglwys Sant Mihangel o dan ei sang ar gyfer y Gwasanaeth Carolau ar brynhawn Sul, y 15fed o Ragfyr. Cafwyd cyfuniad o lithoedd a chanu carolau ac eitemau gan gôr K'ak'ali. Cafwyd croeso a neges y Nadolig, gan Nigel Hardy.

Diolch i Gareth Ward, Gwesty Ynyshir, am wahodd pawb i gael diod a mins peis ar ôl y gwasanaeth a fu'n ddiweddglo braf i noson arbennig.

Symud Cartref

Pob dymuniad da i Ceri, Dominic a'r merched yn eu cartref newydd yng Nghraig y Delyn, Tal-y-bont, a chroeso 'nôl i Dafydd Hughes, Coetmor gynt, sydd wedi dychwelyd i'r pentref ac ymgartrefu yn Nhŷ Ceulan.

Dyweddio

Mae Iwan a Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont, wedi derbyn y newyddion gwych bod eu mab, Gwydion, wedi dyweddio â Hannah Sams. Pob dymuniad da gyda'r trefniadau ar gyfer y briodas fawr.

Cylch Cinio Aberystwyth

Mae dydd Gwener y 13eg yn ddyddiad amheus i bobol ofergoelus ond roedd Tachwedd 13eg eleni yn noson hwyliog iawn yng Nghylch Cinio Aberystwyth. Daeth nifer fawr o'r aelodau ynghyd i ddathlu'r Nadolig dros ginio twrci rhagorol, diolch am groeso cynnes arferol gwesty'r Richmond.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd Illtyd Griffith, Glandyfi. Mae Illtyd yn adnabyddus iawn yn lleol fel cyn-Ddeintydd yn Aberystwyth ond mae'n adnabyddus ymhell y tu hwnt i Gymru fel hyfforddwr pysgota. Mae'n gyn-gapten ar dim pysgota Cymru. Ei brofiadau yn pysgota ar draws y byd oedd thema ei sgwrs i ni ond roedd ei gyflwyniad yn llawer iawn mwy na pysgota. Mae'n amlwg bod ganddo lygaid craff ac fe fu'n son am y tirlyn am fywyd gwyllt a ffordd o fyw a'r hyn a welodd mewn gwledydd megis Rwsia, Norwy, Denmarc, Canada a Chiwba yn ogystal â gwledydd De America gan gynnwys Chile, Brazil. Yr Ariannin a Phatagonia. Diolchwyd iddo gan Wynne Melville Jones, Llanfihangel Genau'r Glyn a gyfeiriodd ato fel dyn o alluoedd arbennig mewn sawl maes ac iddo lwyddo i droi ei brif ddiddordeb mewn pysgota yn ffordd o fyw wrth iddo ddod yn feistr ar hyfforddi yn y grefft a hynny i'r safon uchaf yn rhyngwladol.



Yn gant oed

Llongyfarchiadau i Mrs Valma Jones, Y Wern, Tal-y-bont ar ei phenblwydd yn gan mlwydd oed ar 13 Rhagfyr. Mae Valma ar hyn o bryd yng nghartref nyrsio Abermâd ac anfonwn cofion y gymuned ati.



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

Ysgol Tal-y-bont



Cinio Nadolig



Nadolig y Teganau



Calendr Adfent



Nadolig y Teganau

Cyngerdd Nadolig Cylch Meithrin Tal-y-bont



Cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig a Ffair Grefftau llwyddiannus unwaith eto gan y Cylch Meithrin, gyda llwyth o stondinau arbennig yn arddangos doniau crefftwyr lleol. Sêr y noson oedd y plant a ganodd gwledd o ganeuon Nadoligaidd.

Codwyd swm sylweddol i'r Cylch Meithrin a diolch yn fawr iawn i bawb a fynychodd a chefnogi'r noson. Diolch i Staff y Cylch am eu cefnogaeth barod ac i'r rhieni hynny a fu'n brysur yn paratoi ar gyfer y noson. Dymunwn ddiolch hefyd i fusnesau'r pentref sydd yn fodlon cyfrannu pob blwyddyn yn ddi-gwestiwn ar gyfer gweithgareddau codi arian y Cylch Meithrin, gyda diolch arbennig i'r Llew Gwyn a Chletwr.



Siwmperi Nadolig



Ysgol Iach

Ysgol Tal-y-bont

Nadolig

Fel arfer, mae'r adeg yma o'r flwyddyn yn hynod brysur i ni yma yn yr ysgol.

Wedi seremoni goleuo coeden y pentref, roedd hi'n amser i ni droi ein golygon at ein gwasanaeth Nadolig. Bu'n rhaid torri ar draddodiad eleni wrth gynnal y gwasanaeth yn y Neuadd Goffa, ond ni wnaeth hynny amharu ar naws y neges o gwbl.

Roedd y stori eleni'n seiliedig ar Nadolig y Teganau ac yn gwneud i ni feddwl am wir ystyr y Nadolig yn yr oes sydd ohoni. Er gwaethaf yr anghydwelld rhwng y teganau ar adegau, daeth y cyfan at ei gilydd a phawb yn hapus erbyn y diwedd gyda Siôn Corn wedi galw. Ac roedd plethu stori'r geni yn rhan hollbwysig o'r gwasanaeth wrth gwrs.

Roedd y cyfanwaith wedi ei wau at ei gilydd yn gelfydd iawn eleni eto a hoffwn i ddiolch o galon i Miss Morris am gydlynw'r perfformiad, i'r holl staff am eu gwaith yn paratoi'r plant mor arbennig ac i'r rhieni hefyd am gynorthwyo gyda dysgu'r geiriau, y caneuon a'r gwisgoedd. Ac ni fyddai'r cyfraniadau cerddorol wedi bod mor raenus heb gymorth parod Mrs Falyri Jenkins unwaith eto.

Roedd hi'n braf gweld y Neuadd Goffa'n llawn dop unwaith eto o rieni, ffrindiau a chyn ddisgyblion wedi dod i gefnogi'r ysgol, rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn.

Hoffwn i ddiolch yn fawr i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am roi o'u hamser i baratoi ar gyfer y noson ac am weithio mor galed i sicrhau fod pawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch yn fawr i bawb wnaeth gyfrannu at y raffl a llongyfarchiadau i bawb a enillodd wobwr. Diolch yn fawr i Mr Ieuan Morgan, Mrs Myfanwy James a Phwyllgor y Neuadd am gael defnyddio'r adeilad ar fyr rybudd ac am bob cymwynas yn arwain at noson y perfformiad. Diolch hefyd i Mali a Tirion am redeg y creche.

Diolch yn fawr i Anthony Jarrett am y lluniau hyfryd o'r noson.

Ysgol Gymunedol

Cafodd yr ysgol ddau wahoddiad i berfformio mewn gwahanol leoliadau yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig. Yn gyntaf, roedd hi'n bleser gennym fynd i Gartref Hafan y Waun i ganu ychydig o ganeuon Nadoligaidd ac yna cawsom wahoddiad i gyflwyni rhai eitemau yng nghinio Nadolig Cymdeithas Parkinsons yn Y Wildfowler, Tre'r Ddôl. Diolch yn fawr am gael ein gwahodd atoch a diolch i'r plant am berfformio mor arbennig.

Cafodd Dosbarth Miss Morris syniad diddorol a gwahanol eleni. Yn ogystal â bod y plant yn cael tynnu gwobr o galendr adfent y dosbarth, roedd gwahoddiad i'r plant greu calendr adfent eu hunain. Diolch yn fawr am y cyfraniadau i flwch Adfent Blwyddyn 3 a 4 sydd ar ei ffordd i Jubilee Storehouse.

Credwn fod hyn i gyd yn atgyfnerthu ein hymdrechion i fod yn ysgol gynhwysol ac i sicrhau ein bod yn rhan bwysig o'r ardal leol yn ogystal a chael cyfrannu i'r gymuned ehangach.

Sinema

Mae ymweld â Sinema'r Commodore yn Aberystwyth bob amser yn uchafbwynt i'r plant yr adeg yma o'r flwyddyn. Eleni y ffilm oedd The Grinch ac fe gafodd pawb amser da wrth chwethin ar gampau'r cymeriadau doniol.

Cinio Nadolig ac Urdd Gobaith Cymru

Mae plant a staff yr ysgol yn hynod ffodus o gael bywd o'r safon uchaf wedi ei ddarparu i ni gan staff y gegin ar hyd y flwyddyn ac roedd blasu'r cinio Nadolig ardderchog yn gyfle eto i'n hatgoffa unwaith eto o hynny. Diolch o galon i Mrs Jones a Natalie am baratoi'r wledd. Diolch hefyd i Mrs James am ein cynorthwyo yn ystod y dydd.

Ar ôl y bywd daeth Chloe o'r Urdd atom i gynnal sesiwn cadw'n heini gyda'r plant ac i losgi ychydig o galoriau'r cinio Nadolig! Roedd y plant wedi mwynhau'r sesiwn yn fawr iawn. Hoffwn ddiolch yn fawr hefyd i'r rhieni ddaeth i gynorthwyo ac am roi o'u hamser i ddiddanu'r plant.

Siwmperi Nadolig

Cawsom dipyn o hwyl eleni eto wrth godi arian at elusen Achub y Plant. Roedd gweld gwahanol siwmperi y plant a'r staff yn ddiddorol iawn ac yn codi gwên hefyd. Ond prif bwrpas y gwisgo oedd codi arian i ac roedd hi'n braf gallu trosglwyddo'r cyfraniadau i goffrau'r elusen bwysig yma.

Ysgol Iach

Fel rhan o'n hymrwymiad i fyd mwy cynaliadwy, trefnwyd cystadleuaeth arbennig ar ddiwedd y tymor. Y syniad oedd addurno beiciau, sgwteri a siacedi mewn lliwiau llachar. Roedd angen ychydig o 'bling' ar ddiwrnod mor aeafol. Ymdrech arbennig gan bawb a llongyfarchiadau mawr i'r enillwyr.

Mae dewis disgyblion yn wythnosol am waith da hefyd yn parhau i fod yn boblogaidd ac roedd hi'n braf gweld rhai Sêr y Sgwteri newydd sbon yn ystod y mis.

Atgofion Yr Arglwydd Morris

Yn rhifyn Tachwedd cyhoeddwyd adolygiad o *Cardi yn y Cabinet* gan yr Arglwydd [John] Morris a dreuliodd ei flynyddoedd cynnar yn yr ardal hon. Gofynnwyd iddo lunio erthygl ar ei atgofion o'r cyfnod a dyma ni'n derbyn yr erthygl isod. Diolch iddo am ei barodrwydd i rannu ychydig o hanes ei deulu a'i gyfoedion.

Pleser oedd ufuddhau i'r gwahoddiad i ysgrifennu darn ar fy nyddiau cynnar yn yr ardal. Gan imi a'm dau frawd iau adael ar farwolaeth sydyn fy nhad pan oeddwn yn chwech oed prin yw'r defnydd.

O Lanilar, Ystrad Meurig a Banc y Darren mae ein teuluoedd yn tarddu.

Dyn llaeth yn Llundain, fel hanner o Gardis oedd fy nhad-cu John Morris, a'i frodyr. Priododd merch Cerrigcarannau. Dychwelodd rhai ohonynt i'r ardal i ffermio. Disgynnydd un o'r brodyr yw Jacob Rees-Mogg A S, a chlywais i'w fam Gillian dreulio amser yn Nhal-y-bont amser y rhyfel.

Enillodd fy nhad-cu sedd ar Gyngor Sir cyntaf Sir Aberteifi yn fuan ar ôl dychwelyd, ond mae'n amlwg iddo flino ar y bywyd ar ôl un cyfnod. Yn lle hynny bridiodd geffylau nodedig gan gynnwys y march 'Penywern Admiral'. Mae gennyf gwpan arian o'i bencampwriaeth yn sioe Aberystwyth yn 1902.

Prin yw'r cof o'm tad. Yn ôl mam Mr Owen Watkin, cyn-glerc y sir, cawn eistedd yn ei gwmni fel blaenor yn Rehoboth yn y set fawr, a phensil a phapur i'm cadw'n dawel.

Roedd mam yn un o'r nyrsys cyntaf yng Ngheredigion, - wedi'i hyfforddi

yn yr Ysbyty Meddygol yn Llundain. Yn ôl pob tebyg cyfarfu dad â mam pan oedd ef ar gefn ei geffyl yn dwyn ei ddefaid i Gwm Einion, a hithau ar ei beic yn gweini ar y cleifion o Glandyfi i Dre'r ddôl.

Y stori rwy'n ei hoffi am dad yw iddo orfod un tro, oherwydd poen ei ddannedd, alw ar Dr Williams, Tre'r ddôl. "Dal y gannwyll", dywedodd y doctor, a thynnu'r dant heb unrhyw gyffuriau.


Yn fy ardddegau fy nyletswydd oedd mynd o amgylch ardal Penllwyn i godi arian at sioe Tal-y-bont. Fy mhen gyfaill amser cinio yn Ysgol Ardwyn oedd John Morgan, mab ysgrifennydd y Sioe. Bu farw'n fachgen mentrus yn ei hofrennydd yn y dwyrain pell.

O Gwm Meurig Uchaf, Ystrad Meurig y tarddodd teulu fy mam-gu. Buont yno ers tua 1650 yn ôl dogfennau Ystad Trawsgoed. Clywais yn ddiweddar fod Williams Pantycelyn yn cynnal seiadau yng Nghwm Meurig.

Ar ôl brwydr fel Ysgrifennydd

Gwladol Cymru, enillais y cyfrifoldeb gweinidogol am Amaethyddiaeth Cymru. Yn anffodus roedd amseriad seremoni agor y swyddfeydd yn Nhrawsgoed yn tarfu ar angladd fy hen ewythr James Jenkins, Cerrigcarannau. Rhaid oedd gohirio'r seremoni yn Nhrawsgoed o bob lle, er mawr siom i fy ngweithwyr sifil, er mwyn i mi gael mynd i'r angladd. Roedd un ddyletswydd yn bwysicach na'r llall.

JM



Clawr llyfr yr Arglwydd Morris

GWASANAETH GARDDIO MYNACH

Torri Porfa, Sietynau,
Tirlinio a Chwynu
Dal Gwaddod
Gwasanaeth cyfeillgar a
phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
01974 261758
07792457816

mynachgarden@yahoo.com

Heio 'Na!

I Faldwyn awn y mis yma i gwrdd ag Annwen Watkins (Erglodd gynt).

Wrth deithio tuag at Aberystwyth rwyf wrth fy modd yn dod rownd y gornel o gyfeiriad Taliesin a gweld Erglodd ar y chwith a Chors Fochno ar y dde. Dyma fy hoff olygfa yn y byd – y gors yn ymestyn at y môr - golygfa oedd mor annatod o fy magwraeth yn yr Erglodd.

Yn ddi-os mae gen i atgofion hapus iawn o fy mhlethndod a'r cyfnod yn Ysgol Llangynfelyn ac yna yn Ysgol Penweddig. Mae atgofion lu o helpu fy nhad ar y fferm – o blannu tatws, godro a helpu adeg y cynhaef ac amser ŵyn bach. Roedd fy mam yn cadw 'visitors' ar un adeg ac yn aml roedd rhaid i finnau a fy chwaer Elisabeth rhoi help llaw gyda'r busnes gwely a brecwast. Efallai un o'r digwyddiadau anffodus yn yr Erglodd oedd cael cystadleuaeth neidio ar ben y bagiau gwrtaith. Yn anffodus i mi, dyma fi'n cyrraedd y top ond oherwydd natur slic y bagiau llithrais drostynt a syrthio a thorri fy nannedd blaen! Mae nifer o atgofion plentyndod yn troi o amgylch yr ysgol a'r capel ac roedd Capel Rehoboth, Taliesin yn bwysig iawn i ni fel teulu. Roeddem yn mynd i'r ysgol Sul yn y festri yn ogystal â sawl digwyddiad arall fel Eisteddfod Capeli.

Ar ôl gadael coleg cefais swydd dysgu ym Mhenybontfawr, reit yng ngogledd yr hen Sir Drefaldwyn ac yno treuliais y rhan fwyaf o'm gyrfa, yn gyntaf fel athrawes ac yna fel pennaeth. Dyma ardal groesawgar a'i phobl yn hynod o gefnogol i'w hysgol leol ac mae gan yr ysgol le cynnes iawn yn fy nghalon. Rwyf bellach yn gweithio i Wasanaeth Ysgolion y Sir yn cefnogi ysgolion ledled Powys fel Arweinydd Digidol ac yn mwynhau'r gwaith yn fawr. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bues yn ymwneud â datblygu Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae addysg yng Nghymru yn dechrau ar gyfnod o

newid ac y mae wedi bod yn frainc bod yn rhan o'r broses o greu cwricwlwm newydd.

Fferm yn ardal Llanfihangel-yng-Ngwynfa yw fy nghartref ac fy acen yn un Sir Drefaldwyn bellach er dywed y plant bod fy acen yn newid os dwi'n siarad am gyfnod gyda phobl o

Geredigion! Dwi'n cofio fy niwrnod cyntaf fel athrawes ac yn holi un o'r plant os oedd 'wedi bennu' ei waith – ond edrych yn syn arna i wnaeth y plentyn ac felly o'r diwrnod hwnnw daeth y defnydd o'r gair 'bennu' i ben!

Mae gan Alwyn a finnau dri o blant – y tri erbyn hyn yn eu ugeiniau. Mae Manon yn athrawes yn Llanrhaeadr-Ym-Mochnant, Owain yn ffermio yma ar y fferm a Ffion yn fyfyrwraig. Mae teithio yn rhywbeth sydd yn cysylltu y tri ar hyn o bryd. Mae Manon, y ferch hynaf, wedi cael ei dewis i fynd i Sydney, Awstralia ym mis Mawrth i ddigwyddiad wedi ei drefnu gan Microsoft sy'n dod ag addysgwyr o bob cwr o'r byd at ei gilydd er mwyn trafod datblygiadau digidol ym myd addysg. Newydd ddychwelyd o Japan y mae Owain, ble cafodd nifer o brofiadau amaethyddol difyr fel cynhaefu reis a ffrwythau ar ochrau mynydd Fuji. Ym mhrifysgol yn Chambéry, yn Ne Ddwyrain Ffrainc mae Ffion yn treulio'r flwyddyn hon ac roedd Alwyn a finnau ar ben ein digon dros yr Ŵyl gyda'r tri adref i ddathlu'r cyfnod Nadolig gyda ni.



Fy chwaer a minnau gyda'n teuluoedd



Ysgol Llangynfelyn gyda'r prifathro Mr Mansel James

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk



Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiadi
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Cymdeithas Y Chwiorydd, Rehoboth

Llinos Dafis, Llandre, oedd y wraig wadd yn y cyfarfod yn festri Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 10 Rhagfyr. 'Menywod yn fy mywyd' oedd testun ei sgwrs, a soniodd am rai o'r menywod o fewn ei theulu a'r gymdeithas leol a ddylanwadodd arni pan yn ifanc. Hefyd soniodd am fenywod mewn hanes, mewn chwedlau, ac yn y Beibl, a'r cyfan yn hanesion diddorol am fywyd y merched hynny. Diolchwyd i Llinos am brynhawn difyr iawn, ac yna mwynhawyd te, mins peis a chacen Nadolig wedi eu paratoi gan Eiriona Metcalfe a Carys Briddon.

BroAber360

gan Daniel Johnson –
ysgogydd Bro360 yng ngogledd Ceredigion

Helo bawb! Mae'n ychydig o fisoedd ers i wefan BroAber360 fynd yn fyw, ac erbyn hyn mae'n llawn straeon diddorol, aml-gyfrwng - o ddarn am y cerddor o Landre, Ffion Evans, i stori am lwyddiant Clybiau Ffermwyr ifanc Ceredigion yn Eisteddfod Cymru. Er mwyn gwyllo, chlywed a darllen y diweddara, ewch i broaber360.cymru.

Rydym wrthi'n datblygu'r wefan drwy'r amser, a'r elfen ddiweddara yw calendr digidol - lle i chi rannu eich digwyddiadau lleol ar-lein drwy'r Gymraeg. O gemau bêl-droed i gyngherddau, o wyliau i foreau coffi - dyma'r lle i weld a rhannu be sy mlan yng ngogledd Ceredigion. I weld be sy mlan yn barod, ewch i broaber360.cymru a dewiswch 'Digwyddiadau'.

Yn ystod mis Rhagfyr fe fues yn mynd â'r calendr digidol o gwmpas gogledd Ceredigion er mwyn dangos pa mor hawdd ydyw i'w ddefnyddio.

Fues i'n ymweld â sawl ffair Nadolig - efallai eich bod chi wedi fy ngweld yn Ffair Neuadd Tal-y-bont yn fy siwmpwr werdd! Diolch am alw heibio

Ar ben hyn, dros gyfnod yr adfent fe fuom yn rhannu un anrheg ddigidol gyda chi bob dydd, sef #Tips360. Cadwch lygad ar gyfrifon Twitter, Instagram a Facebook **Bro360** i weld tips bach ar bob math o bethau digidol y gallwn ni eu gwneud yn rhwydd wrth hyrwyddo'r pethau sy'n bwysig i ni'n lleol.

I gael sgwrs, holi am gymorth neu roi gw'bod am stori bosib i'ch gwefan, cysylltwch â mi ar daniel@bro360.cymru neu 01570 423529.

Blwyddyn newydd dda i chi gyd!

CFfi Tal-y-bont



Blwyddyn Newydd Dda!

Fe fu mis Rhagfyr yn fis prysur arall i aelodau CFfi Talybont ac uchafbwynt y gweithgareddau oedd teithio o amgylch yr ardal dros ddwy noson yn **canu carolau**. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfranodd at y DPJ Foundation – braf yw cyhoeddi ein bod wedi llwyddo i gasglu £1606.47 hyd yma i'r elusen!

Bydd **Cinio Blyneddol y Clwb** nos **Sadwrn 18 Ionawr yng Ngwesty'r Marine** – croeso cynnes i holl aelodau, cyn-aelodau, rhieni a ffrindiau y clwb. Cysylltwch gyda Teleri Morgan, Pwll Glas os yr ydych am fynychu. Yn ystod y mis fe fydd paratodau ar gyfer cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymraeg y Sir fydd yn cael eu cynnal dydd Sul 19 Ionawr ar gampws Theatr Felinfach. Byddwn hefyd yn dechrau ymarfer ar gyfer Cystadleuaeth Adloniant y mudiad. Drama fydd y gystadleuaeth eleni ac fe fydd drama pob clwb yn cael eu perfformio yn Theatr Felinfach rhwng 17eg a'r 21 Chwefror. Dymuniadau gorau i bawb fydd yn cystadlu yn y cystadlaethau ar ran y Clwb. Bydd gwledd o berfformiadau ardderchog, felly dewch i gefnogi!

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

James Memorials
Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaernïol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Buyd da... Cwmni da!
BLACK LION HOTEL
01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

Dydd a Nos

Dyma bennod 5 o'r stori dditectif gan Geraint Evans. Y tro hwn cawn wybod mwy am Nyrs Benson.

O ystyried y gofod amser a ffaeiddau'r cof roedd y lluniau photo-fit o'r nyrs a gynhyrchwyd gan Ellen Parry a Charlotte Wright yn hynod o debyg. Dynes yn ei thri degau hwyr, ei gwallt brown wedi'i dorri'n gwt a'i gribo nôl o dalcen lydan. Eiliau trwchus yr un lliw a'r gwallt, llygaid gwyrdd, trwyn smwt, bochau cochion a rhimyn o wefus. Gwisgai iwniform nyrs neu ofalwraig a'r unig nodweddion anghyffredin oedd y stydiau clust a mwclis aur.

Edrychodd Gareth ar y llun. "Reit, gosod hwnna ar wefannau heddluoedd Cymru a'i ryddhau i'r wasg." Sbeciodd yn agosach ar y wyneb babiaidd, "Rhys wedi dewis am sgiliau gofal yn hytrach nag harddwch."

"Hardd neu beidio, y glonc am Benson yn dew drwy'r pentre," dywedodd Teri. "Hanky-panky, wastad yn meddwl fod y Professor yn dipyn o hen gi, stwff fel 'na. Pawb yn awyddus i fwrw barn, neb yn barod i gefnogi'r farn gyda ffeithiau caled."

Cysylltwyd â holl ysbyta'r ardal a'r sefydliadau oedd yn cynrychioli nyrsys a gofalwyr. Roedd 'na dair dynes a'r cyfenw Benson ar lyfrau y naill a'r llall, y gyntaf wedi mudo i Seland Newydd a'r ddwy arall yn hollol annhebyg i'r ferch yn y llun. Ofer hefyd oedd yr apêl i'r cyhoedd. Derbyniwyd yr ymatebion arferol gan y nytars a'r ffantasiwyr a thalwyd sylw i'r fflyd o alwadau ond gwyddai Gareth a Teri mai gwastraff amser oedd y cyfan. Roeddent yn dal i ddisgwyl canlyniadau y chwilio fforensig yn Penlan; roedd y tŷ yn lân, yn rhy lân mewn gwirionedd. Mewn neges fer dywedodd Angharad Annwyl, Patholegydd Bronglais nad oedd modd datgan beth oedd achos marwolaeth Meurig Rhys oherwydd cyflwr y corff. Rhoddodd amser marwolaeth rhywbryd rhwng tri a phum mis, ffaith a oedd i bob pwrpas, eisoes yn hysbys i'r heddlu.

I ganfod ffordd allan o'r pydew negyddol aeth Gareth i weld yr Athro Hugh Gilman, Deon Cyfadran y Dyniaethau yn y Brifysgol, a bos Meurig Rhys. Fe'i croesawyd i'r swyddfa ar drydydd llawr adeilad modern ac eisteddodd y ddau gyferbyn â ffenest lydan a roddai olygfa o weddill y campws. Am ei fod yn arbenigwr ar ddatblygiad terfysgaeth ym Mhrydain roedd Gilman yn byndit cyson ar y teledu ac o'r herwydd yn hen law ar ateb cwestiynau.

"Newyddion syfrdanol am Rhys. Rwy'n casglu nad marwolaeth naturiol a dyna'r rheswm am yr ymweliad?"

"Cywir, marwolaeth amheus ar hyn o bryd, tybiaeth gref o fwrddwr. Sut fath o ddyn oedd Meurig Rhys?"

Oeddodd Gilman ac roedd yn amlwg ei fod yn mesur ei eiriau yn ofalus. "Dyn preifat, anodd i adnabod ac yn gallu bod yn bigog. Dwi yma ers pum mlynedd a heb gynnal sgwrs bersonol gyda fe gydol yr adeg yna. Trafodaethau swyddogol a dadleuon academiaidd ie, agored am deimladau, byth. Ar yr ochr bostfawr, am i chi sylweddoli mai ef oedd yr arbenigwr ar Faenordai Dyfed. Obsesiynol yn y modd roedd yn gwarchod y maes, tueddiad sawl academydd gwaetha'r modd. Bwysig i chi ddeall fod Rhys yn disgwyl camu i swydd Deon y Gyfadran a'r dyrchafiad yn goron ar ei yrfa. Wel, fi gafodd y job ac ymddeolodd Rhys yn gynnar mewn pwd."

"Gelyniaeth felly?"

"Oerodd y rhithyn o gyfeillgarwch rhyngom ac fe wnaeth Rhys pob peth o fewn ei allu i greu anawsterau a gwneud fy mlwyddyn gyntaf yn

uffern ar y ddaear. Dyn oedd yn dal dig ac fel eliffant hen ffasiwn, byth yn anghofio."

"Pam hen ffasiwn?"

"Pob peth amdano yn hen ffasiwn. Gwisgo'n hen ffasiwn, siarad yn hen ffasiwn 'os y tybiasoch, beirniader chwi' ag ati. Ymddwyn yn hen ffasiwn, cwrteisi arwynebol yn cuddio sarff. A'i faes yn eithriadol o hen ffasiwn, pwy ar y ddaear sy â ddiddordeb mewn maenordai? Wrthi'n paratoi y gyfrol safonol ers hydoedd. Blwyddyn nesa, wastad blwyddyn nesa. *Publish or perish* dyna fel mae yn y byd academiaidd."

"Perthynas gyda chyd-weithwyr?"

"Cylch cyfyng o ffrindiau, cyfoeswyr a bron pob un yn ddynion. Eithriadol o ragfarnllyd o safbwynt merched, staff a myfyrwyr. Wnaethon ni groesi cleddyfau sawl tro mewn byrddau arholi ac fe gafwyd helynt rai blynyddoedd yn ôl pan apeliodd myfyrwraig yn erbyn dyfarniad ysgoloriaeth. Ennill yr apêl a Rhys yn gorfod ymgreinio mewn sachliain a lludw."

"Ag eto roedd rhaid iddo fod yn gytbwys o ran myfyrwyr - gwrywaidd neu fenywaidd?"

"Roedd gan Rhys ffefrynau a rheini oedd yn dilyn ei gyrsiau. Manteisiol i'r naill ochr a'r llall. Yr athro yn mwynhau y clodfori a'r llyfu tin a'r myfyrwyr yn ennill gradd dosbarth cyntaf."

"Y cyfenw Benson yn golygu rhywbeth?"

"Na. Nawr mae gen i bwyllgor mewn pum munud, os oes rhywbeth arall ffoniwch yr ysgrifenyddes."

"Un pwynt cyn gadael, rwy'n cael argraff gref nad o chi'n hoffi Meurig Rhys?"

"Hollol gywir, casáu'r dyn!" Am yr eilwaith pwyllodd Gilman cyn rhybuddio "tipyn o naid rhwng casáu a mwrddro Inspector."

Edrychodd Teri ar y plât pres yn cyhoeddi 'Morgan & Jones, Solicitors' camu dros y trothwy a chael ei thywys i 'stafell eang yn llawn cyfrolau swmpus - yn amlwg, llyfrgell y practis. Mewn llai na dwy funud daeth dyn ifanc drwy'r drws wedi'i wisgo mewn siwt lwyd, crys clawryn a thei borffor, y stereoteip perffaith o gyfreithiwr.

"Morgan neu Jones?", gofynnodd

"Smith, John Smith. Ein sylfaenwyr parchus wedi marw ers hanner canrif. A sôn am farw chi wedi dod i gael manylion stad yr Athro Meurig Rhys. Eidentiti os gwelwch yn dda?"

Dangosodd Teri ei cherdyn gwarant.

"Diolch." Agorodd Smith y ffeil o'i flaen. "Athro Rhys yn ddyn cyfoethog. Perchennog llwyr y tŷ, Penlan, sy ar brisiau cyfredol yn werth pedwar can mil, fferm yn Ystrad Meurig a thir amaethyddol o gwmpas yn werth miliwn a hanner. Fflat ym Mae Caerdydd, asedau a buddsoddiadau saith cant a hanner o filoedd. Ychwanegu cyfrifon banc a chynnwys y tŷ - y lluniau a'r llyfrau - cyfanswm o tua dau pwynt saith miliwn."

"A'r etifedd?"

"Marian Fosse, unig berthynas gwaed y diweddar Athro. Fosse yn ddynes lwcus iawn," trodd Smith dudalen yn y ffeil, "i ddweud y gwir yn hynod o lwcus. Tan yn ddiweddar roedd Meurig Rhys yn bwriadu gadael ei holl eiddo i'r Brifysgol. Newid yr ewyllys a'r Athro yn cyfeirio at gael ei drin yn siabi ac yn bendant na fyddai'r cythreuliaid yn cael ceiniog."

Cododd Teri o'i sedd a pharatoi i adael ond nid oedd Smith wedi gorffen. "Gyda llaw Marian Fosse eisoes wedi ymweld ac yn awyddus i wybod pryd fyddai'r cyfan yn dod i fwcl. Person sy'n ymddangos mor gyfoethog...rhyfedd te?"

hawlfraint © Geraint Evans

Mae'r heddlu ar drywydd y llofrudd. Gwnewch yn siwr o'ch copi o rifyn Chwefror er mwyn dilyn yr hanes.

Tensiwn ar bob tudalen!

**Nofelau ditectif
GERAINT EVANS**

y **olfa.com**

Llyfrau dros Gymru

Dau Fusnes yn 4 Dôl Pistyll



Busnes rhif un

Gweithio fel saer coed o ddydd i ddydd mae Gerwyn Breese ond yn hoff iawn o grefftau traddodiadol ac yn gwneud cribinau, llwyau, lletwadau, llwyau caru ac adar o bren. Mae'n creu ei lwyau o bren gwyrdd, sef pren newydd ei dorri, yna'n cerfio patrymau ar goes ambell un neu'n eu peintio gyda phaent llaeth. Mae sawl cenhedlaeth o'i deulu wedi bod yn seiri coed o'i flaen ac mae'n dal i ddefnyddio offer ei hen daid hyd heddiw. Y sialens ar gyfer 2020 fydd gwneud cadeiriau ar gynllun traddodiadol Cymreig!

Busnes rhif dau

Mae Menna Morgan yn gweithio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ond wedi dechrau, ers yr haf, ar wneud crysau T a hwdis gyda sloganau Cymraeg arnynt nhw i blant ac oedolion. Mae hefyd wedi bod yn creu eitemau ar gais i unigolion a busnesau lleol yn ogystal â gwisg ysgol i ddisgyblion Ysgol Tal-y-bont. Mae nifer o blant i'w gweld ar yr iard yn gwisgo hwdi neu grys T lliwgar gyda logo'r ysgol arno!

Os oes gan unrhyw un o ddarllenwyr Papur Pawb ddiddordeb ac eisiau gwybod mwy yna cysylltwch: / neu ewch i gyfrif Instagram y ddau: @gerwynbreeze / @ceirios.cymru

**argraffu da
am bris da**

Y Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yolfaf.com
01970 832 304 www.yolfaf.com

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com

Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Bethel Tal-y-bont



Aelodau'r Ysgol Sul ar ôl perfformio 'Y COED NADOLIG' (Pulpud) Ela, Hopcyn, Martha, Efa, Swyn, Glain.

(Rhes flaen) Gruff, Ieuan, Mari, Osian Gwern, Elinor, Alaw, Osian, Daniel

Diolch i bawb wnaeth ymuno â chynulleidfa Bethel dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd yn enwedig Gwasanaeth Noswyl Nadolig yr Ysgol Sul a'r oedfa fer a gynhaliwyd fore Dydd Nadolig. Diolch yn fawr i bawb a fu wrthi'n trefnu ac yn cymryd rhan, gan osod cywair perffaith ar gyfer yr ŵyl.



Yr ydym yn ddiolchgar iawn i swyddogion Nasareth am eu croeso noswyl Nadolig ac am hwyluso'r trefniadau wrth i ni orfod symud o Bethel dros dro tra bo'r boeler yn cael ei drwsio.

Diolch hefyd i Bwyllgor y Neuadd am roi cartref dros dro i ni yn y Neuadd Isaf. Bydd cyfle ar 12 Ionawr i wrando ar Gwilym Tudur wrth iddo wasanaethu mewn oedfa gymun. Bydd ein cyfeillion o Seion, Stryd y Popty yn ymuno a ni ar gyfer yr oedfa. Y mae Bethel a Seion wedi gwahodd Gwilym i ddod atom o Fedi 2020 ymlaen fel Gweinidog o Dan Hyfforddiant a bydd yn braf ei gyfarfod unwaith eto a chlywed ei neges ar ddechrau'r flwyddyn fel hyn. Croeso cynnes i bawb.



Gwilym Tudur

Yn ystod mis Rhagfyr aethpwyd ati i ail blastro dipyn ar du mewn y capel (yn dilyn y gwaith allanol a gyflawnwyd y llynedd). Diolch i Rob Davies, Mans y Tabernacl, am ei waith trylwyr ac am sicrhau fod y cyfan wedi ei gwblhau yn brydlon.



Parti Plygain Papur Pawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth Nadolig

Gyrfa Chwist y Sioe



Ar nos Fercher 18 Rhagfyr cynhaliwyd Gyrfa Chwist y Sioe yn y Neuadd Goffa. Roedd y neuadd yn gyfforddus lawn gyda dau ddeg pump a hanner o fyrddau a Glyn Davies yno yn cadw trefn ar bawb.

Hanner amser cafwyd paned a lluniaeth a drefnwyd gan y gwragedd a chyfle i brynu tocynnau'r raffl fach gan Marion Evans ac Ann James.

Yn y raffl fach enillwyd y gwobrau gan y rhai oedd yn y neuadd ar y noson. Cyn troi am adref, diolchodd ein cadeirydd am y gefnogaeth a gafwyd ar y noson.

Buddugwyr y noson oedd:

Sgôr uchaf 184 (Gwŷdd) Glyndwr Davies, Rhoslefain

Twrçi: Mari Lloyd, Llanarth; I Edwards

Cyw Iâr: Kath Jones, Gerynant; Alun Evans, Fronddel

Cyw Iâr: Marion Evans, Tynant, Dilwyn Jenkins, Wileirol Isaf

Potel o sieri: Emyr Davies, Llety Ifan Hen; Ieuan Davies

Pwdin Nadolig: Barbara Jenkins, Hafod Ifan; Roland Hughes, Llanafan; Ffion Evans, Fronddel; Audrey Williams, Blaenpwyf

Bwrw allan (Hwyaden): Donna Williams, Aberaeron; Alun Evans, Fronddel

Miniatur: Margaret Jenkins, Tynygraig; Barry

Dyn/Dynes yn eistedd hiraf: Enid Morris; Peredur Morgan

Plentyn 16 oed ac iau: Heledd Edwards; Tomos James, Penbanc

Ein Llywydd fu'n tynnu gwobrau'r ddwy raffl a dyma'r prif enillwyr:

Penwythnos i 6 yng Ngwarcwm Uchaf: Eirwen Hughes, Pencwm

£100: Ynyr Siencyn, Tanyrallt

£50: Gwenda Jones, Talsarn

Seddi i ddau yn Sinema Libanus: Joanne Rhoshelyg

£25: Lisa Davies, Llety Ifan Hen

Hamper o Cletwr: Eifion Jones, d/o Eurfan

Cinio Dydd Sul Y Blac: Dai Jenkins, d/o Wynnstay

£20: Mair Davies

Tocyn anrheg Marchnad Bysgod Jonah: Glyn Davies, yr MC

£10: Mair Rees, Tywyn



Yn ystod Cinio Blynnyddol y sioe, cyflwynwyd coeden afalau i Janet Jones, Llwynglas am ei gwasanaeth fel Ysgrifenyddes Cyffredinol am 20 mlynnydd. Yn y llun mae Enoc Jenkins, Cadeirydd; Janet a Ieuan Morgan, Llywydd.

Cystadleuaeth Stori Fer Cara

Annwyl ddarllenwyr,

Oes gennych chi stori yn llechu yn eich meddwl ac ydych chi'n ysu am ei sgwennu ar bapur? Wel, dyma'ch cyfle chi!

Mae cylchgrawn Cara yn cynnal cystadleuaeth stori fer, ar y testun Adra / Adre / Cartref.

Mae cyfle i chi ennill £100 i'w wario ar wefan www.adrahome.com a chael eich stori wedi ei chyhoeddi yn y cylchgrawn. Y beirniad yw'r awdur poblogaidd Manon Steffan Ros, a'r dyddiad cau yw Diwrnod Santes Dwynwen, 25 Ionawr 2020.

Mae'r manylion llawn, ynghyd â'r ffurflen gais, yn rhifyn gaeaf Cara, sydd ar gael yn y siopau nawr, ac ar ein gwefan www.cara.cymru. Croeso i unrhyw un roi cynnig arni!

Diolch o galon am eich cefnogaeth yn 2019. Mae Cara yn edrych ymlaen at ddegawd newydd, gyffrous!

Meinir ac Efa, Tîm Cara

Eisteddfod y Dysgwyr

Ar 27 Mawrth, eleni, cynhelir Eisteddfod y Dysgwyr Ceredigion, Powys a Sir Gâr yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Mae'r Eisteddfod yn rhedeg ers sawl blwyddyn bellach, ac mae'n un o uchafbwyntiau calendr dysgwyr yr ardal. Mae'r Eisteddfod yn rhywbeth newydd i nifer fawr o'r dysgwyr, ac mae'n gyfle gwyh iddyn nhw ddod i ymarfer eu Cymraeg a dysgu am ein diwylliant a'n traddodiadau. Ceir cystadlaethau llwyfan, cyfansoddi a chystadlaethau celf a chreffft i'r dysgwyr, a chynhelir seremoni cadeirio'r bardd buddugol ar y noson – os bydd teilyngdod! Llynedd, enillwyd y gadair gan Wendy Evans o Aberteifi. Aeth Wendy ymlaen i ennill y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019 yn y gystadleuaeth i ddysgwyr. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Phyl Brake, y cydlynnydd lleol drwy e-bost: pjb@aber.ac.uk neu ar y ffôn: 01970 622280.

STORFA HUNAN FYNEDIAD



UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

**MONITRO DIOGELWCH
24 AWR**

Storfa Cartref & Busnes



Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda



STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703592

Heol Y Ddŵl, Machynlleth, SY20 8BQ

**MID WALES
STORAGE**

www.midwalesstorage.co.uk

Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwsr £9.95)**

Ystafelloedd ar gael

01970 832245

garethwhitelion@outlook.com

Colofn Ben Lake

Dyma gyfle ar ddechrau 2020 i ddymuno blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch – gan ddymuno pob hapusrwydd ac iechyd i chi drwy gydol y flwyddyn!

Bu 2019 yn flwyddyn heriol a dweud y lleiaf ym myd gwleidyddiaeth. Yn y pen draw, bu i holl anrhefn a thrybini San Steffan arwain at alw etholiad brys, a hynny ynghanol misoedd llwm y gaeaf. Bu hon yn ymgyrch etholiadol tra gwahanol i'r un yn 2017 - gyda'r tywydd garw yn adlewyrchiad, ar brydiau, o deimladau cryfion etholwyr Ceredigion.

Nid Brexit oedd yr unig fater oedd pobl eisiau'i godi ar stepen drws yn ystod yr ymgyrch. Roedd pobl hefyd yn awyddus iawn i drafod materion megis y Gwasanaeth Iechyd, yr economi leol, tai a dyfodol y diwydiant amaeth – y pynciau hynny sy'n effeithio'n sylweddol ar ein bywydau a'n cymunedau.

Braint o'r mwyafrif oedd cael fy ailethol yn Aelod Seneddol dros Geredigion ar y 12fed o Ragfyr. Rhaid dweud fy mod i wedi cael sioc aruthrol o glywed maint y mwyafrif, a dwi'n eithriadol o ddiolchgar i etholwyr Ceredigion am roi eu ffydd yno'n unwaith yn rhagor.

Bu i mi ddychwelwyl i Lundain yn syth ar ôl cael fy ailethol, ac roedd yn amlwg o'r cychwyn cyntaf y byddai pethau'n dra gwahanol yn y Senedd y tymor hwn, dan lywodraethiant Boris Johnson a'r mwyafrif sylweddol sydd ganddo erbyn hyn. Fy ngwaith i o hyn allan fydd dwyn y Llywodraeth Geidwadol i gyfrif ar bob darn o ddeddfwriaeth, ond wrth reswm bydd hynny'n anoddach o lawer yn sgil y mwyafrif sydd gan y Prif Weinidog.

Yn ogystal ag amddiffyn buddiannau pobl a chymunedau Ceredigion yn y Senedd yn San Steffan, byddaf yn gweithio'n ddiflino ar lawr gwlad yn y sir hefyd. Byddaf yn parhau i gynnal cymorthfeydd wythnosol mewn gwahanol leoliadau ar draws y sir a byddaf i, neu aelodau'r tîm yn Llambod, bob amser ar gael i helpu etholwyr mewn angen. Mae croeso i chi gysylltu â mi unrhyw bryd: / 01570 940333.

Mae'n ffrainc cael cynrychioli Ceredigion – bro fy mebyd – yn San Steffan, ac rwy'n edrych ymlaen at gynrychioli holl etholwyr y sir dros y pum mlynedd nesaf. Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth.

Blwyddyn newydd dda i chi gyd!



Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch



Llongyfarchiadau mawr i dim cwis y gangen, Carys, Eryl, Fal a Megan Mai a ddaeth yn ail yn nghwis Rhanbarth Ceredigion o Ferched y Wawr a gynhaliwyd yng ngwesty Ty Glyn Aeron yn Nhachwedd.

Noson yng ngofal ein haelodau amryddawn a gafwyd ar 2 Rhagfyr i gloi gweithgareddau 2019 y gangen. Yn ddigon naturiol, y Nadolig oedd themar noson a rhoddwyd rhwydd hynt i'r unigolion i ddilyn eu trywydd eu hunain.

Cafwyd darlleniadau, atgofion plentyndod, storïau, arddangosfa o angyllion a chreffwaith nadoligaidd ffilm o hen wasanaeth Nadolig Ysgol Sul Bethel a chyfle i ganu dwy garol o gyfnodau gwahanol.

Mawr oedd y canmol i'r amrywiaeth o gyfraniadau a mwynhawyd cwpaned a mins pei cyn troi am adre. Edrychwn ymlaen i fwynhau gweddill arlwy'r rhaglen ar gyfer 2020. Bydd ein cyfarfod nesaf yng ngwaelod y neuadd ar 20 Ionawr pryd y byddwn yn croesawu'r cyfieithydd Rhys Huws atom.

Y Gair Olaf



Dwi ddim yn un sy'n sylwi'n ormodol ar 'moths' a 'butterflies', ond pan gynigiodd rhyw Sais o Surrey arian i fi a'm mrawd i helpu i gario offer oedd ganddo i ddala gwyfynod, fe newidiodd fy niddordeb yn syth.

I dorri'r stori'n fyr, yn Haf 1967, mi ddoth dyn i'r ffald, Mr Richardson, prifathro ar ysgol breifat yn ne ddwyrain Lloegr. Roedd yn chwilio am wyfyn arbennig, y 'Rosy Marsh Moth', gwyfyn nad oedd neb wedi ei weld ers 100 o flynyddoedd pan gafodd y rhywogaeth ei ddisgrifio a'i ddarganfod gyntaf yn Swydd Caergrawnt gan James Francis Stephens yn 1828.

Yn wahanol i iâr fach yr haf, efo'r nos mae gweld y gwyfynod. Roedd mynd â'r offer i Gors Fochno wedi iddi nosu yn beryglus i rywun dieithr ond roeddwn i a'm mrawd yn ddigon cyfarwydd â'r dirwedd, ac yn fwy na pharod i helpu a chadw cwmni, yn enwedig gan fod ef mor hael ei boced.

Yn sydyn cynhyrfodd Mr Richardson, roedd wedi dod o hyd i'r hyn roedd yn chwilio amdano, y gwyfyn prin oedd eraill wedi ymdrechu i'w darganfod ond wedi methu ar rannau eraill o'r gors. Credodd yr athro yn gryf bod llawer gwell gan y gwyfyn fagu ar blanhigion ifanc gan fod y figyn yng Ngherrigaranau bryd hynny'n cael ei losgi'n rheolaidd.

Petai'r Gors yn cael ei losgi heddiw bydde 'na anferth o dân, ac oni bai am dir pori ac amaeth ar gyffiniau Cors Fochno anodd bydde atal y tân rhag lledaenu i bentrefi cyfagos Tre'rddôl, Taliesin a Thal-y-bont. Mae'n rhaid bod hawl gan ddyn i reoli'r amgylchedd, tybed ai diffyg pori ac amaethu i gyd-fynd a bywyd gwyllt yw llawer o broblemau'r wlad?

Dilwyn Jenkins

Q
Y CRYNWYR

HOLI AC ADDOLI
CWRDD CYFRWNG CYMRAEG
Y trydydd Sul o'r mis 19 Ionawr am 3 pm
TY CWRDD Maes Maelor Penparcau SY23 1SZ

CROESO CYNNES I BAWB
Ymholiadau: 01970 612794 medijames22@gmail.com

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

CHWARAEON



Tim Tal-y-bont o dan 8 oed. Diolch i Garmon o'r Lofa am noddi'r cit newydd

Pêl-Droed Ieuencid

Wrth i *Bapur Pawb* fynd i'r wasg ail-ddechreuodd tymor Cynghair Ieuencid Aberystwyth a'r Cylch 2019-20 ar ôl gwyliau'r Nadolig.

Mae gan Dal-y-bont ddau dîm dan 8 oed y tymor hwn dan reolaeth Mark Evans a Danny Harris. Er eu bod yn chwarae yn erbyn timau o blant sydd yn aml yn hŷn na hwy, cafwyd perfformiadau da yn ystod hanner cyntaf y tymor. Cafodd y timau nawdd hael gan Y Lofa, Alison Jones Schoolwear, Mayan Cabs, ac LEB Construction er mwyn prynu crysau a hefyd hwdis a siacedi i'w cadw yn gynnes.

Mae'r ddau dîm arall dan wyth oed yn cael eu rheoli gan Kham Rahman a Dean Vaughan, gydag Anthony Foulkes yn noddi'r cit.

Cawn fwy o hanes y tîm dan ddeg oed, sydd dan reolaeth Tom Cosson, yn rhifyn nesaf *Papur Pawb*.

Mae'r tîm dan 14 oed yn cael ei reoli gan Anthony Foulkes a'r tîm dan 16 gan Chris Walton.

Efallai nad ydych yn sylweddoli bod y banc ailgylchu gwydr ar bwys cae chwarae'r plant ger Maes-y-Deri yn ffynhonnell incwm defnyddiol iawn i'r timau ieuencid. Mae'r clwb ieuencid yn derbyn arian am bob llwyth o wydr a gesglir yno felly byddai'n ddymunol petai bawb yn defnyddio'r banc ailgylchu yn hytrach nag aros wythnosau am loriau sbwriel alw yn eich cartrefi.

Mark Evans

*Galwch heibio –
Dathlu Cymunedau
31 Ionawr*

Dathlu Cymuned - Dewch draw i gael cip ar y dyluniadau ar gyfer paneli Storifa (Y Llecyn Straeon), ein canolfan treftadaeth tu allan i Cletwr.

15:00 - 18:30

Dewch draw - does dim angen bwcio.



Colofn Cletwr



Bu peth tristwch yn Cletwr yng nghanol holl firi a llawenydd y Nadolig. Bu rhaid i ni ffarwelio â Sue Davies, ein rheolwr Marchnata, ar ôl pedair blynedd. Mae hi wedi cychwyn ar bennod newydd yn ei bywyd gan ymhen ychydig wythnosau bydd siop newydd Sue yn agor ar Stryd y Ffynnon Haearn o'r enw "Iwtopia", deli fegan. Mae Sue wedi bod yn un o hoelion wyth Cletwr ers iddi gychwyn, ac mae hi wedi cyfrannu cymaint at lwyddiant Cletwr. Diolch yn fawr iawn iddi am ei holl ymdrech, a phob lwc iddi yn ei menter newydd. Siŵr iawn y bydden ni'n dal i'w gweld hi o bryd i'w gilydd yn mynychu digwyddiadau yn y caffi.

Ond ar ôl ffarwelio, daw croeso! Mae 'Sue Newydd' eisoes yn gweithio – Simon Demaine – mae e wedi cymryd drosodd yn y swydd, ac yn setlo i lawr yn sydyn iawn. Mae'n dysgu Cymraeg felly dwed "Shwmae" wrtho!

Roedd mis Rhagfyr yn brysur iawn, fel roedden ni'n disgwyl. Dydy hi byth yn dawel yn Cletwr erbyn hyn! Ond fe ddaeth miloedd o bobl i mewn i brynu anrhegion ac yn ymlacio dros ddishgled a brecwast hamddenol yn ystod cyfnod estynedig yr Ŵyl. Un ymwelydd arbennig oedd Siôn Corn wrth gwrs, ar Noswyl Nadolig, a ddaeth i mewn am frechwast - ond roedd amser 'da fe i siarad â nifer o blant llawn cynnwrf hefyd. Diolch am ddod Siôn. Dewch nôl eleni!

Blwyddyn newydd, digwyddiadau newydd. Mae nifer ohonoch efallai wedi sylwi ar ein 'Caban' - sied newydd moethus, amlbwrpas, tu cefn i'r siop. Mae e ar gael nawr ar gyfer pobl sydd eisiau gweithio neu gynnal cyfarfod mewn lle preifat a thawel, ond bydd digwyddiadau yno hefyd. Arbrawf llwyddiannus oedd yr un cyntaf pan ddaeth Rebecca i dorri gwallt yno. Bydd hyn yn rhywbeth rheolaidd o hyn ymlaen. Edrychwch ar Facebook am y dyddiadau. Ac fe fydd Susannah yn defnyddio'r lle i gynnig tylino'r pen 'Reiki' foreau Mawrth yn ystod mis Ionawr.

Mae arddangosfa newydd wedi agor yn yr Oriel, gwaith gan bobl leol fel rhan o brosiect 'Dathlu Cymuned'. Nod y prosiect yw datgelu treftadaeth naturiol, hanesyddol a diwylliannol pentrefi Tre'r-ddôl a Thre Taliesin. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae pobl yn y gymuned wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau sydd wedi edrych ar y dreftadaeth leol ac wedi helpu wrth benderfynu beth sy'n hynod am y fro. Mae syniadau a gwybodaeth wedi'u casglu i gyfrannu i'r paneli dehongli a osodir yn y Storifa y tu allan i adeilad y Cletwr. Bydd sesiwn 'galw i mewn' am y prosiect ar yr 31ain o'r mis hwn. Mae arddangosfa tecstilau newydd ar y wal hefyd - cwiltiau gan Jane Nicholls o Daliesin.

Beth arall sy'n digwydd yn ystod mis Ionawr? Gweithdai a chyfarfodydd cyfrifiadurol – blogio a defnyddio Google Apps. Gweithdai crefft (ffeltio a Kokedama – ewch at Facebook i ddarganfod beth yw hynny!). Bydd Owen Shiers yn canu ac yn lansio albwm newydd ar y 18fed – prynwch eich tocynnau yn gynnar! Bydd Daniel Morden nôl ar 8fed o Chwefror gyda mwy o'i straeon traddodiadol...a llawer, llawer mwy. Mae rhaglen lawn ar Facebook.

Gobeithio byddwn yn eich gweld chi i gyd yn y siop a chaffi cyn bo hir.

N.C.